

Y Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd, 2 Chwefror 2017
Pwyntiau Gweithredu

Aelodau'r Tasglu
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Alun Davies AC (Cadeirydd)
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, Ken Skates AC
Y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth, Julie James AC
Ann Beynon, Cadeirydd Bwrdd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
Jocelyn Davies, Cyn Ddirprwy Weinidog Tai ac Adfywio
Andrew Diplock, Cyfarwyddwr Strategaeth a Llywodraethu, Inprova Energy
Judith Evans, Pennaeth, Coleg y Cymoedd
Dr Chris Jones, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Martin Mansfield, Ysgrifennydd Cyffredinol, TUC
Y Cyngorydd Andrew Morgan, Arweinydd y Cyngor, Rhondda Cynon Taf
Yr Athro Brian Morgan, Prifysgol Caerdydd
Fiona Jones, Cyfarwyddwr, Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Gaynor Richards, Cyfarwyddwr, Cyngor Gwirfoddol Cymunedol Castell-nedd Port Talbot
Aelodau'r Bwrdd
Madeleine Brindley, Cyngorydd Arbennig
Tracey Burke, Llywodraeth Cymru, Cyfarwyddwr, Strategaeth yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Jo-Anne Daniels, Llywodraeth Cymru, Cyfarwyddwr, Cymunedau a Threchu Tlodi
Owen Evans, Llywodraeth Cymru, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Maureen Howell, Llywodraeth Cymru, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cydraddoldeb a Ffyniant
John Howells, Llywodraeth Cymru, Cyfarwyddwr, Tai ac Adfywio
Ruth Meadows, Llywodraeth Cymru, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfathrebu Digidol a Strategol
Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru
Duncan Forbes, Prif Weithredwr, Cymdeithas Tai Cymuned Bron Afon
Gill Richardson, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol
Simon Dean, Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru
Hannah Woodhouse, Rheolwr Gyfarwyddwr, Consortiwm Addysg Canolbarth y De
Cyflwynwyr
Ian Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Datblygu Sector, Llywodraeth Cymru
Geraint Rees, Cyngorydd Proffesiynol Ysgolion ac Awdurdodau Lleol, Y Gyfarwyddiaeth Addysg, Llywodraeth Cymru
Gwesteion
Dawn Chadwick, Tîm Cyfathrebu Llywodraeth Cymru
Ysgrifenyddiaeth y Tasglu
Laura Evans, Llywodraeth Cymru
Lucy Hoddinott, Llywodraeth Cymru

1: Croeso a Chyflwyniadau

Croesawodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes aelodau'r tasglu i'r trydydd cyfarfod. Eglurodd mai ffocws y cyfarfod oedd ystyried sut gellir cydlynu gwasanaethau cyhoeddus yn well yn y cymoedd.

2: Gweledigaethau, blaenoriaethau a chyfrifoldebau arweiniol

Bu aelodau'r Tasglu yn trafod papur Llywodraeth Cymru sy'n amlinellu gweledigaeth a blaenoriaethau allweddol y tasglu. Roedd y prif bwyntiau trafod yn cynnwys:

- Yr angen am raglen uchelgeisiol dros y pedair blynedd nesaf a thu hwnt. Roedd hi'n bwysig i aelodau'r tasglu gael arwain y gwaith hwn, gan weithio ochr yn ochr â swyddogion ac osgoi gwaith digyswllt.
- Pwysigrwydd strategaeth fuddsoddi sy'n manteisio ar enillion masnachol mewn safleoedd allweddol ledled y cymoedd, fel yr hyrwyddwyd gan Chris Sutton yn ystod cyfarfod diwethaf y tasglu.
- Dylid rhoi pwyslais ar sicrhau bod rhaglenni cyfredol yn addas i'r diben ac na ddylid ailadrodd gwaith ymgynghori cyfredol, ond yn hytrach ei ddefnyddio i lywio gwaith y tasglu.
- Roedd rhai pryderon am y pwyslais ar dwristiaeth yn y papur, a'r aelodau'n rhybuddio rhag 'tacluso'r lle ar gyfer ymwelwyr' cyn canolbwyntio ar y materion a'r problemau go iawn sy'n wynebu pobl leol.
- Pwysleisiodd yr aelodau mai swyddi o safon a llwybrau datblygu clir yw un o'r prif faterion sy'n wynebu llawer o gymunedau'r cymoedd, ac y dylai hynny gael blaenoriaeth.

3: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Rhoddodd Frank Atherton, y Prif Swyddog Meddygol, gyflwyniad ar y cynnig iechyd ar gyfer y cymoedd, fel yr amlinellwyd yn y papur cysylltiedig a chanlyniadau gweithdy iechyd a Gofal Cymdeithasol perthnasol. Roedd y prif bwyntiau trafod yn cynnwys:

- Angen canolfannau neu hybiau cymuned ac integreiddio gwasanaethau sy'n adeiladu ar asedau'r gymuned, gan bwysleisio bod angen i'r canolfannau hyn fod yn hygyrch i'r cymunedau a wasanaethir ganddynt.
- Angen cynllunio gwell yn seiliedig ar leoedd. Dylid cynllunio canolfannau iechyd cymunedol ochr yn ochr â chynlluniau'r gwasanaeth Metro a gwaith cynllunio polisi arall, fel tai.
- Angen gwaith amlddisgyblaeth, a fydd yn galluogi gweithwyr iechyd i gydweithio a chroesi'r ffin rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd
- Annog gweithwyr iechyd i ystyried dulliau eraill o wella iechyd, gan gynnwys presgripsiyn cymdeithasol. Roedd cysylltiad cryf rhwng yr amgylchedd a mynediad hawdd a hwylus i fannau gwyrdd ac iechyd corfforol gwell.

4: Addysg

Rhoddodd Hannah Woodhouse, Rheolwr Gyfarwyddwr, Consortiwm Addysg Canolbarth y De, gyflwyniad am gynnig addysg posib i'r cymoedd, gan gynnwys cryfderau'r ysgolion mwyaf llwyddiannus. Ymhlith y prif bwyntiau trafod roedd:

- Yr angen am yr athrawon gorau yn yr ardaloedd sydd eu hangen fwyaf, lle mae ysgolion mewn trafferth.
- Yr angen i dywys plant drwy'r dewisiadau gwaith a gyrfa o oedran iau, er mwyn tynnu sylw at y dewisiadau gyrfa amgen a rhoi mwy o uchelgais iddynt.
- Dechrau addysg o oedran iau a chynnwys mamau a theuluoedd plant cyn ysgol er mwyn annog cyrhaeddiad ac uchelgais. Roedd ymyrryd â'r teulu cyfan yn hollbwysig.
- Mynd i'r afael ag addysg mewn ffordd gyfannol, gan gynnwys edrych ar gynnig hyfforddiant galwedigaethol i fyfyrwyr 14 oed ymlaen yn hytrach na gorfodi pob un i ddilyn llwybr academiaidd.
- Angen ystyried cyllidebu seiliedig ar leoedd, a sut mae'r holl grantiau cymunedol yn cael eu defnyddio ar y cyd.
- Posibilrwydd o ddarparu cludiant am ddim i rai dan 16 oed.

5. Tai

Cyflwynodd Duncan Forbes, Prif Weithredwr Cymdeithas Tai Cymuned Bron Afon, y drafodaeth ac amlinellu'r cynnig tai ar gyfer y cymoedd. Roedd y prif bwyntiau trafod yn cynnwys:

- Modelau cyllido arloesol i adeiladu tai newydd a darparu cymorth i berchnogion cartrefi heb y cyfalaf i fuddsoddi yn eu tai eu hunain.
- Angen ystyried darparu tai cymdeithasol cyn unrhyw gyhoeddiad am ganolfannau trafnidiaeth Metro er mwyn osgoi'r sefyllfa o foneddigeiddio'r ardaloedd hynny pan fydd gwerth y tir yn codi. Rhaid i'r canolfannau/hybiau hyn ddod â gwerth i bobl leol.
- Cymorth tai i bobl ifanc er mwyn helpu i'w cadw yn eu milltir sgwâr a sicrhau bod cymunedau'n dal i ffynnu. Gallai gwella ystadau a chanol trefi gan gynnwys seilwaith helpu i adeiladu cymunedau cryf a chadarn.
- Defnyddio safleoedd tir llwyd ac asedau cyhoeddus er mwyn darparu cartrefi newydd.

Cam gweithredu:

Y cyfarfod nesaf: 3 Ebrill 2017

Diwedd.